



Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori

Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Cyfnod gweithredu 3 - Lleoliadau Oedolion

Dyddiad cyhoeddi: 24 Mai 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 16 Awst 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich safbwyntiau ar set newydd o reoliadau lleoli oedolion fydd yn disodli Rheoliadau Cynlluniau Lleoliadau Oedolion (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2010. Bydd y rheoliadau lleoli oedolion newydd, a ddatblygwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn gosod gofynion ar ddarparwyr cynlluniau lleoli oedolion annibynnol a'r awdurdodau lleol, yn bennaf o dan adrannau 27 a 28 Deddf 2016. Byddant yn dod i rym yn Ebrill 2019.

Sut i ymateb Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb i ymgynghoriad sydd ar ddiwedd y ddogfen hon erbyn hanner nos ar y dyddiad cau. Dylid anfon yr ymateb at:

Cangen Gweithredu Deddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu mae'r ffurflen ymateb i ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan (<https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>) a gellir ei dychwelyd atom erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, drwy e-bost i: RISCAct2016@gov.wales

Mwy o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig **Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd gwahanol o'r ddogfen hon ar gael.**

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017 - mae'r rhain yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau cartrefi gofal, llety diogel, canolfannau preswyl i deuluoedd a chymorth cartref
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/pdfs/wsi_20171264_mi.pdf

Canllawiau Statudol ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ynghylch bodloni rheoliadau safonau gwasanaethau (Chwefror 2018) - mae'r rhain yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau cartrefi gofal, llety diogel, canolfannau preswyl i deuluoedd a chymorth preswyl
<https://gov.wales/docs/dhss/publications/180201statutory-guidancecy.pdf>

Datganiad Llesiant ar gyfer Pobl sydd Angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr sydd Angen Cymorth:
www.wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/strategies/state-ment/?lang=cy

Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad
Cyfnod 2 Gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
<https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-02/171122responses-servicecy.pdf>

Manylion cysylltu

I gael mwy o wybodaeth:

Cyfeiriad: Cangen Gweithredu Deddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac

Integreiddio

Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: RISCAct2016@gov.wales

Ffôn: 0300 0604400

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Gall comisiynu lle mae Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gwaith hwn gael ei wneud gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Ymgymmerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwyna thair blynedd

Eich Hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny;
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data;
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu';
- (o dan rai amgylchiadau) cludadwyedd data

- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD, CF10 3NQ
Cyfeiriad e-bost Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane, Wilmslow
Cheshire, SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 or
0303 123 1113
Gwefan: www.ico.gov.uk

Rhagair

Yn 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn *Gwasanaethau Cyhoeddus Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu*. Mae hwn yn esbonio cynllun uchelgeisiol i greu dull integredig a newydd o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Er mwyn cyflawni'r dull newydd yma, yn ystod tymor diweddaraf y Cynulliad bu i ni gyflwyno dau ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Drwy weithredu Deddf 2016 rydym yn sefydlu system newydd o reoleiddio ac archwilio darparwyr gwasanaethau sy'n gwarchod hawliau dinasyddion Cymru i dderbyn gofal a chymorth urddasol, diogel a phriodol.

Bydd y system reoleiddio newydd yn fwy cydnerth ac yn galluogi Arolygiaeth Gofal Cymru, fel rheoleiddiwr y gwasanaeth, i gael trosolwg o'r gwasanaeth llawn y mae sefydliad yn ei ddarparu. Hefyd, bydd yn ei gwneud yn haws i ddarparwyr gwasanaethau gofrestru gyda'r arolygiaeth ac i ddinasyddion gael mynediad at wybodaeth amdanynt.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 a'r canllawiau statudol ategol, yn nodi ac egluro'r safonau gwasanaeth fydd yn ofynnol gan y darparwyr hyn o Ebrill 2019.

Maent yn seiliedig ar, a phryd bynnag mae'n briodol, yn cyfateb i'r safonau hynny a osodwyd ar wasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref o fis Ebrill eleni.

Sicrhau cysondeb o ran y gofynion a osodir ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â'r holl wasanaethau a reoleiddir yw un o fy mhrif amcanion polisi wrth roi Deddf 2016 ar waith. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cydnabod bod gan bob gwasanaeth ei nodweddion ei hun. Felly, pan fo'n briodol, mae'r gofynion wedi'u teilwra er mwyn sicrhau eu bod yn cydweddu orau â sut mae'r gwasanaethau yn cael eu darparu yn ymarferol, heb gyfaddawdu ar y safonau cyffredinol disgwyliedig.

Hoffwn ddiolch i chi am roi eich amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori hon, am ystyried y Rheoliadau drafft a'r canllawiau, ac rwyf yn eich gwahodd i ymateb fel sy'n briodol. Edrychaf ymlaen at glywed eich safbwyntiau.

Huw Irranca-Davies AC
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016¹ ('Deddf 2016'), a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016, yn nodi'r fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoleiddio ac archwilio gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac mae hefyd yn diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n disodli systemau perthnasol a sefydlwyd yn flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000².
- 1.2 Mae Deddf 2016 yn cael ei rhoi ar waith y sylweddol fesul tri chyfnod sy'n gorgyffwrdd:

- **Cyfnod 1 (2016/17)** oedd yn cynnwys rheoliadau mewn perthynas â'r system newydd o reoleiddio gweithlu oedd yn ofynnol o dan Ddeddf 2016. Daeth y rhain i rym ar 3 Ebrill 2017. Yn ogystal â'r rhain, bu i Ofal Cymdeithasol Cymru ddatblygu rheolau a gweithdrefnau sy'n rheoli'r broses o gofrestru a rheoleiddio gweithlu.
- **Cyfnod 2 (2017/18)** pryd y sefydlwyd systemau newydd ar gyfer cofrestru gwasanaethau rheoleiddiedig ac a weithredwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru o Ebrill 2018. Roedd y cyfnod hwn hefyd yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â'r gofynion a'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â chartrefi gofal (yn cynnwys cartrefi plant), llety diogel ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref. Daeth y rhain i rym ar 2 Ebrill 2018.

Mae dolenni ar gael i holl reoliadau a chanllawiau cyfnod 1 a chyfnod 2 drwy Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-rhagc-rheoliadau>

- **Cyfnod 3 (2018/19)** yw'r cyfnod presennol ac mae'n cynnwys datblygu rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â'r gofynion a'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas ag asiantaethau mabwysiadu, asiantaethau maethu annibynnol, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eirioli. Bwriedir i'r rhain ddod i rym yn Ebrill 2019.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o weithredu Cyfnod 3.

- 1.3 Yn ystod cyfnod 3 byddwn hefyd yn datblygu'r gofynion fydd yn cael eu gosod ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau maethu. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar yr elfennau hyn, ac yn bwriadu i unrhyw reoliadau, canllawiau statudol a chodau ymarfer ddod i rym yn ystod gwanwyn 2019. Ar hyn o bryd rydym hefyd yn gofyn am safbwyntiau ar y dull o reoleiddio cynlluniau gwyliau i blant anabl, sydd ar hyn o bryd yn cael eu rheoleiddio fel gwasanaethau cartrefi gofal. Y bwriad yw diffinio'r gweithgaredd yma fel gwasanaeth newydd a reoleiddir o dan adran 2 Deddf 2016 a datblygu rheoliadau fydd yn gosod gofynion cymesur ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau o'r fath.

¹ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/pdfs/anaw_20160002_we.pdf

² http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/pdfs/ukpga_20000014_en.pdf

2. Yr ymgynghoriad hwn

2.1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal o 24 Mai 2018 a daw i ben am hanner nos ar 16 Awst 2018.

2.2 Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich safbwyntiau ar Reoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2019 ('y Rheoliadau drafft') sydd yn gwyno:

- yn rhoi gofynion newydd ar ddarparwyr lleoli oedolion annibynnol ac unigolion cyfrifol, o dan Ddeddf 2016
- yn gosod yr un gofynion ar wasanaethau lleoli oedolion awdurdodau lleol.

2.3 Mae hefyd yn gofyn am eich safbwyntiau ynghylch:

- canllawiau statudol drafft ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion ac unigolion cyfrifol o ran bodloni safonau gwasanaeth, o dan adran 29 Deddf 2016
- rheoleiddio gwasanaethau ar gyfer rhai 16 i 17 oed yn y dyfodol.

Bydd eich ymateb i'r ymgynghoriad yn helpu i hysbysu'r ystyriaeth a roddwn i'r Rheoliadau terfynol a'r canllawiau statudol. Ein bwriad yw dadansoddi'r ymatebion yn ystod yr hydref ac ystyried a fydd angen gwneud unrhyw newidiadau cyn cwblhau'r Rheoliadau erbyn diwedd y flwyddyn. Rydym hefyd yn amcanu at gyhoeddi'r canllawiau statudol tua'r un adeg. Bydd y cyfan yn dod i rym yn Ebrill 2019.

3. Gwasanaethau Lleoli Oedolion

Cefndir

- 3.1 Y rheoliadau presennol sy'n cwmpasu gwasanaethau lleoli oedolion yng Nghymru yw Rheoliadau Cynlluniau Lleol Oedolion (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2010³. Lluniwyd y rhain o dan Deddf Safonau Gofal 2000, ac maent yn gosod gofynion ar gynlluniau lleoli oedolion awdurdodau lleol ac annibynnol mewn perthynas â rheoli'r cynlluniau ac ymddygiad gofalwyr lleoliadau oedolion.

Yr achos o blaid newid

- 3.2 Mae llawer wedi ei gyflawni gan y rheoleiddwyr (Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru⁴), a'r sector gofal cymdeithasol ehangach, wrth fynd ati i wireddu'r uchelgeisiau a nodwyd Neddf Safonau Gofal 2000. Roedd y fframwaith hwn yn darparu gwaelodlin o safonau, ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth ac i'r gweithlu sy'n eu darparu, ac mae'n ddiamheuol wedi gwella gwarchodaeth i'r cyhoedd. Hefyd, mae wedi darparu llawer mwy o gysondeb, gwarchodaeth rhag camdriniaeth a chamfanteisio, a mwy o sylw i arferion nad ydynt yn cyrraedd y safon. Gyda'n gilydd rydym wedi llwyddo i wella perfformiad ac yn parhau i ddefnyddio rheoleiddio ac archwilio i ddileu safonau gwael.
- 3.3 Fodd bynnag, ers hynny, rydym yn cydnabod bod llawer o bethau wedi newid yn y sector ac o gwmpas y sector, ac rydym wedi cydnabod yr angen i sicrhau bod ein trefniadau rheoleiddio yn gyfredol a'r angen i gefnogi darparu gwasanaethau cynaliadwy.
- 3.4 Mae diwygio'r system reoleiddio, a ysgogir yn bennaf drwy Ddeddf 2016, yn seiliedig ar bum egwyddor allweddol:
- ymatebolrwydd i'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁵ ('Deddf 2014')
 - sicrhau bod dinasyddion wrth galon gofal a chymorth
 - datblygu dull Cymreig cydlynol a chyson
 - taclo methiannau darparwyr
 - ymatebolrwydd i fodelau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon newydd am ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.
- 3.5 Mae gan y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ran arwyddocaol i'w chwarae o ran gweithredu a bwrw ymlaen â'r diwygiadau yma.

Y fframwaith rheoleiddiol newydd

- 3.6 O dan adran 27 Deddf 2016, gall Gweinidogion Cymru osod gofynion ar unigolyn cyfrifol mewn perthynas â gwasanaeth a reoleiddir; ac o dan adran 28, gallent osod gofynion ar unigolyn cyfrifol mewn perthynas â gwasanaeth a reoleiddir.

³ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/1756/contents/made/welsh>

⁴ Arolygiaeth Gofal Cymru (hyd at Ionawr 2019) oedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Gofal Cymdeithasol Cymru (hyd at Ebrill 2016) oedd Cyngor Gofal Cymru.

⁵ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

- 3.7 Mae'r 'gwasanaethau rheoleiddiedig' yma yn cynnwys gwasanaethau lleoli oedolion, a ddiffinnir yn Atodlen 1 Deddf 2016 fel: '...gwasanaeth a ddarperir (er elw neu beidio) gan awdurdod lleol neu unigolyn arall at ddibenion lleoli oedolion gydag unigolyn yng Nghymru o dan gytundeb gofal (ac mae'n cynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer recriwtio, hyfforddi a goruchwyllo'r cyfryw unigolion)'. Mae 'Cytundeb gofalwr' yn golygu cytundeb gan unigolyn i ddarparu llety yng nghartref yr unigolyn ynghyd â gofal a chymorth i hyd at dri oedolyn.
- 3.8 Mae hynny'n golygu y bydd Deddf 2016 yn disodli Deddf Safonau Gofal 2000 mewn perthynas â'r gofynion ar wasanaethau lleoli oedolion awdurdodau lleol ac annibynnol, felly mae angen rheoliadau newydd.
- 3.9 Mae'r ymagwedd a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r Rheoliadau drafft wedi ei dewis er mwyn sicrhau bod y gofynion yn:
- **Gymesur:** dylai'r gofynion fod yn berthnasol i faterion a reolir gan ddarparwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol, ac sy'n arwain at welliannau o ran ansawdd ac arferion.
 - **Cyson** ar draws yr holl wasanaethau a reoleiddir: nid yw hynny'n golygu safonau 'unffurf' i bawb, ond y dylai'r un safonau uchel gael eu cymhwyso ar draws yr holl wasanaethau. Felly, mae'r rheoliadau'n rhai lefel uchel o anghenraid, ac mae'r manylion ynghylch sut mae cydymffurfio â'r gofynion wedi eu nodi yn y canllawiau statudol drafft.
 - **Canolbwyntio ar ddeilliannau i bobl:** y bwriad yw i'r gofynion alluogi i wasanaethau gefnogi pobl yn y ffordd orau bosibl i gyflawni *beth sy'n bwysig iddyn nhw*, yn unol ag ethos Deddf 2014. Y nod yw rhoi digon o hyblygrwydd i ddarparwyr er mwyn eu galluogi i ofalu a chynorthwyo pobl mewn modd sy'n gosod yr unigolyn fel canolbwynt eu gofal.

Ein Cynigion

- 3.10 I'r graddau sy'n ymarferol, bwriad ein polisi yn gyffredinol yw gosod set o ofynion generig ar ddarparwyr yr holl 'wasanaethau rheoleiddiedig' o dan Ddeddf 2016, gan addasu'r rhain pan fo angen er mwyn gweddu i bob gwasanaeth. Nodir y gofynion generig yma yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017⁶ ('Rheoliadau 2017'), a ddaeth i rym ar 2 Ebrill 2018 ac sy'n gymwys i wasanaethau cartrefi gofal (yn cynnwys cartrefi plant), llety diogel ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref. Felly mae Rheoliadau 2017 yn darparu glasbrint polisi ar gyfer y Rheoliadau drafft yr ymgynghorir arnynt yma.
- 3.11 Sefydlwyd Grŵp Technegol o ddarparwyr gwasanaethau lleoli oedolion a rhanddeiliaid er mwyn cynghori ar ddatblygu'r Rheoliadau drafft a'r canllawiau statudol. Bu i'r Grŵp gyfarfod dair gwaith rhwng Medi 2017 a Mawrth 2018 a bu iddynt ystyried perthnasedd Rheoliadau 2017 i wasanaethau lleoli oedolion.
- 3.12 Ar gyfer gwasanaethau lleoli oedolion, bwriad ein polisi hefyd yw gosod yr un gofynion ar wasanaethau awdurdodau lleol ag a osodir ar wasanaethau lleoli oedolion annibynnol. O dan adran 29 Deddf 2016, mae'n rhaid i Weinidogion

⁶ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/pdfs/wsi_20171264_mi.pdf

Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch sut y gall darparwyr gwasanaethau gydymffurfio â gofynion a osodir gan reoliadau o dan adran 27, a sut y gall unigolion cyfrifol gydymffurfio â'r gofynion o dan adran 28. Bydd y canllawiau hyn hefyd yn gymwys i gynlluniau awdurdodau lleol ac annibynnol.

- 3.13 Bydd y gofynion ar ddarparwyr yn disodli'r rhan fwyaf o Reoliadau 2004. Bwriad ein polisi fu trosglwyddo'r rheoliadau hyn i'r Rheoliadau Drafft fel ein bod yn parhau i feddu ar un set gyfun o reoliadau ar gyfer gwasanaethau lleoli oedolion.
- 3.14 Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer cynlluniau lleoli oedolion⁷, a gyhoeddwyd yn 2004, hefyd yn cael eu disodli gan gyfuniad o ofyniadau yn y Rheoliadau drafft, wedi eu hategu gan y canllawiau statudol.

Rheoliadau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

- 3.15 I grynhoi, mae'r Rheoliadau drafft:

- yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig (o dan adran 27 Deddf 2016);
- yn gosod gofynion ar unigolion cyfrifol dynodedig (o dan adran 28 Deddf 2016);
- yn nodi pa achosion o dorri'r gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol fydd yn cael eu trin fel troseddau (o dan adrannau 27 a 28 Deddf 2016);
- yn gosod gofynion ar berson penodedig mewn perthynas â darparwyr gwasanaeth sydd wedi ei ddiddymu (o dan adran 30 Deddf 2016);
- yn gosod gofynion ar gynrychiolydd personol darparwr gwasanaeth sydd wedi marw (pan mai unigolyn yw'r darparwr gwasanaeth) (o dan adran 31 Deddf 2016).
- yn pennu'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru (yn lle darparwr gwasanaeth) ddynodi unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol.

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau

- 3.16 Mae **Rhannau 2 i 11** y Rheoliadau drafft yn nodi'r gofynion manwl ar ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig mewn perthynas â safon y gofal a'r cymorth ddylid ei roi i unigolion. Mae hynny'n gysylltiedig â'r pŵer i lunio rheoliadau yn adran 27 Deddf 2016. "Darparwr gwasanaeth" yw unigolyn sydd wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) i ddarparu gwasanaeth a reoleiddir.
- 3.17 Mae **Rhan 2** yn cwmpasu gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau ynghylch y ffordd y darperir y gwasanaeth. Mae'n cynnwys gofynion mewn perthynas â'r datganiad o fwriad, trefniadau ar gyfer monitro a gwella, gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol ac mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth, a gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau. Mae darparwr gwasanaeth lleoli oedolion neu 'ddarparwr gwasanaeth' yn golygu unigolyn sy'n cynnal gwasanaeth lleoli oedolion fel y diffinnir hynny yn atodlen 1 Deddf 2016.

⁷ <http://careinspectorate.wales/docs/cssiw/general/131009nmsadultplacementcy.pdf>

- 3.18 Mae **Rhan 3** yn cwmpasu'r camau fydd i'w cymryd cyn y bydd darparwr gwasanaeth yn cytuno i ddarparu gofal a chymorth i unigolyn. Bwriad hynny yw sicrhau bod y gwasanaeth yn wirioneddol addas a'i fod yn gallu bodloni anghenion yr unigolyn a chynorthwyo'r unigolyn i gyflawni ei ddeilliannau personol. Mae'n rhaid i'r penderfyniad hwn ynghylch addasrwydd y gwasanaeth ystyried cynllun gofal a chymorth yr unigolyn o dan adran 54 neu adran 83 Deddf 2014.
- 3.19 Mae **Rhan 4** yn cwmpasu'r camau fydd i'w cymryd pan fydd darparwr gwasanaeth wedi gwneud penderfyniad ac wedi cytuno i ddarparu gofal a chymorth i unigolyn. Mae hynny yn cynnwys paratoi 'cytundeb gofalwr', paratoi 'cytundeb lleoli unigolyn' a pharatoi ac adolygu 'cynllun personol'. Y bwriad yw i'r cytundeb gofalwr fod yn 'gontract' trosfwaol rhwng y darparwr gwasanaeth a gofalwr lleoli oedolion, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ddau barti gyflawni eu rolau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth, ac mae'n nodi trefniadau er mwyn sicrhau bod y safleoedd, cyfleusterau a'r offer fydd yn cael eu defnyddio gan ofalwyr lleoliadau oedolion yn addas i'r diben ac yn parhau i fod felly.
- 3.20 Bwriedir i'r cytundeb lleoli unigolyn gyfateb i'r cytundeb lleoli oedolyn fel y nodir hynny yn Rheoliadau 2004, a byddai'n cael ei lunio ar ôl canfod y gallai gofalwr lleoliad oedolyn fodloni anghenion unigolyn penodol. Bydd yn cynnwys manylion am y lleoliad, yn cynnwys math y lleoliad, yr ystafell fydd yn cael ei defnyddio a'r ffioedd fydd yn cael eu talu. Pryd bynnag fo'n ymarferol, dylai'r unigolyn fod yn barti i'r cytundeb a derbyn copi wedi ei lofnodi. Mae'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth adolygu'r cytundeb lleoli unigolyn o leiaf unwaith yn ystod blwyddyn gyntaf y lleoliad, pryd bynnag y caiff addasiad arwyddocaol ei wneud, ar gais rhesymol yr unigolyn neu'r gofalwr lleoliad oedolyn, ac o fewn blwyddyn i'r adolygiad diwethaf beth bynnag fo'r amgylchiadau.
- 3.21 Bydd y cynllun personol yn debyg i'r cynllun oedolyn presennol fel y nodir hynny yn rheoliadau 2004 a bydd yn nodi anghenion a dymuniadau penodol yr unigolyn sy'n ceisio cymorth, a sut fydd y gofalwr yn darparu'r cymorth hwnnw. Mae'n ofynnol bod y cynllun yn cael ei adolygu o leiaf bob 3 mis, a dylai'r adolygiad hwnnw gynnwys yr unigolyn ac unrhyw gynrychiolydd.
- 3.22 Mae'r canllawiau statudol drafft yn nodi'r manylion ynghylch sut y gall darparwyr gwasanaethau gydymffurfio â'r gofynion hyn.

Efallai y byddwch yn dymuno rhoi ystyriaeth benodol i bwrpas a chynnwys y cytundebau a'r cynllun personol yn eich ymateb.

- 3.23 Mae **Rhan 5** yn delio â gwybodaeth y mae'n rhaid iddi fod ar gael am y gwasanaeth ar ffurf arweiniad ysgrifenedig. Y bwriad yma yw darparu eglurder ynglŷn â diwylliant ac ethos y gwasanaeth a reoleiddir ac amrywiaeth o faterion eraill. Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi rhai o'r gofynion mewn perthynas â'r arweiniad; er enghraifft bod raid i'r iaith, arddull, cyflwyniad a fformat fod yn briodol gan roi ystyriaeth i'r gwasanaeth a reoleiddir a'r unigolion y darperir gofal a chymorth iddynt. Mae'n ofynnol hefyd i'r arweiniad gynnwys gwybodaeth am sut i fynegi pryder neu wneud cwyn, yn ogystal â gwybodaeth am argaeledd gwasanaethau eirioli. Mae meysydd eraill y dylid ymdrin â nhw yn yr arweiniad wedi eu nodi yn y canllawiau statudol drafft. Mae'r Rheoliadau drafft hefyd yn cynnwys gofyniad i unigolion dderbyn unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w galluogi i ddeall y wybodaeth a gynhwysir yn yr arweiniad.

3.24 Mae **Rhan 6** yn cynnwys gofynion mewn perthynas â safon y gofal a chymorth fydd yn cael ei ddarparu. Mae'n cynnwys gofynion trosfwaol fydd yn tanategu ansawdd y gwasanaeth. Mae hefyd yn cynnwys gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth, bodloni anghenion iaith a cyfathrebu'r unigolyn a sicrhau bod unigolion yn cael eu trin â pharch a sensitifrwyd.

3.25 Mae **Rhan 7** yn cynnwys gofynion y bwriedir iddynt sicrhau bod unigolion yn ddiogel a'u bod yn cael eu gwarchod rhag camdriniaeth a thriniaeth amhriodol. Mae'r rhan hon yn cynnwys gofynion mewn perthynas â defnyddio rheolaeth ac ataliaeth. Y bwriad yma yw egluro bod defnyddio camau o'r fath yn ddewis olaf yn unig. Mae Rhan 7 hefyd yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â chefnogi a galluogi unigolion i reoli eu harian eu hunain yn ogystal â'u gwarchod rhag camdriniaeth ariannol.

Efallai y byddwch yn dymuno rhoi ystyriaeth benodol i hyn yn eich ymateb.

3.26 Mae **Rhan 8** yn nodi'r gofynion mewn perthynas â staffio. Mae'n cynnwys gofynion penodol mewn perthynas ag addasrwydd unigolion sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth, yn cynnwys gwirfoddolwyr a staff asiantaeth. Mae'r gofynion penodol ynghylch gwybodaeth a dogfennaeth yn cael eu nodi yn atodlen 1. Mae hefyd yn cynnwys gofynion mewn perthynas â chefnogi a datblygu staff, cydymffurfiaeth â chod ymarfer y cyflogwr, gwybodaeth i staff a gweithdrefnau disgyblu.

3.27 Mae **Rhan 9** yn nodi'r gofynion mewn perthynas â'r cymorth y dylai fodoli ar gyfer gofalwyr lleoliadau oedolion. Mae hynny yn cynnwys recriwtio a hyfforddi gofalwyr lleoliadau oedolion, perthnasoedd effeithiol, cymorth, hyfforddiant a gwybodaeth, ac addasrwydd gofalwyr lleoliadau oedolion.

Efallai y byddwch yn dymuno rhoi ystyriaeth benodol i'r gofynion hyn yn eich ymateb.

3.28 Mae **Rhan 10** yn cwmpasu'r gofynion ynghylch safleoedd, cyfleusterau ac offer. Mae hynny yn cynnwys y safleoedd a ddefnyddir ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth a'r safleoedd, cyfleusterau ac offer a ddefnyddir gan ofalwyr lleoliad oedolion er mwyn bodloni anghenion unigolion.

3.29 Mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth sefydlu trefniadau er mwyn sicrhau bod y safleoedd, cyfleusterau ac offer a ddefnyddir gan ofalwyr lleoliadau oedolion yn addas a diogel at y dibenion y bwriedir eu defnyddio; eu bod yn cael eu defnyddio'n ddiogel; eu cynnal a'u cadw yn briodol; yn cael eu cadw'n lân yn unol â safon sy'n briodol i'r diben y'u defnyddir, a'u bod yn cael eu storio'n briodol yn achos offer. Bydd manylion y cytundebau hyn yn cael eu nodi yn y cytundeb gofalwr sy'n gynwysedig yn Rheoliad 11.

Efallai y byddwch yn dymuno rhoi ystyriaeth benodol i'r trefniadau hyn yn eich ymateb.

3.30 Mae **Rhan 11** yn cynnwys gofynion amrywiol ynghylch darparwyr gwasanaethau, yn cynnwys gofynion ynghylch cadw cofnodion, rhoi hysbysiadau i reoleiddiwr y gwasanaeth, gwrthdaro buddiannau, polisi a gweithdrefnau cwyno a chwythu'r chwiban. Mae Atodlen 2 yn nodi'r cofnodion y mae'n ofynnol i'w cadw, ac mae Atodlen 3 yn nodi'r hysbysiadau penodol fydd yn cael eu rhoi.

Dyletswyddau Unigolion Cyfrifol

- 3.31 Mae **Rhannau 12-16** yn nodi'r gofynion a osodir ar unigolion cyfrifol mewn perthynas â'r lle y dynodir i'r unigolyn, yn unol ag adran 28 Deddf 2016. Mae gofynion cymhwysedd adran 21 Deddf 2016 yn sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn "unigolyn addas a phriodol" a'i fod hefyd ar lefel briodol uchel yn y sefydliad. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i ddarparwyr er mwyn eu cynorthwyo gyda dynodi unigolion cyfrifol.
- 3.32 Bwriad y rheoliadau yma yw sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am fodloni'r gofynion hyn, ond er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng tasgau y gellir eu dirprwyo a'r rhai na ellir, defnyddiwyd y geiriau "*rhoi trefniadau addas yn eu lle*" er mwyn darparu'r eglurder angenrheidiol. *Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol dynodedig fodloni'r gofyniad i ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol.*
- 3.33 Mae **Rhan 12** yn cynnwys gofynion mewn perthynas â dyletswydd gyffredinol yr unigolyn cyfrifol i oruchwyllo sut y caiff y gwasanaeth ei reoli, a'r dyletswyddau penodol mewn perthynas â phenodi person addas i reoli'r gwasanaeth, sefydlu trefniadau ar gyfer rheoli'r gwasanaeth pan fo'r rheolwr yn absennol, ac ymweld â'r llefydd ble darperir y gwasanaeth. Fel y nodir uchod, mae'n ddyletswydd arnynt i ysgwyddo'r ddyletswydd a'r atebolrwydd cyffredinol am y gwasanaeth.
- 3.34 Mae **Rhan 13** yn cynnwys gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwyllo'n effeithiol. Drwy osod y gofynion hyn ar yr unigolyn cyfrifol, mae'r Rheoliadau drafft yn y rhan hon yn sicrhau bod person ar lefel briodol uchel yn y sefydliad yn atebol am ansawdd y gwasanaeth a chydymffurfiaeth. Mae'n ofynnol i'r unigolyn cyfrifol lunio adroddiadau i'r darparwr gwasanaeth ar ddigonolrwydd adnoddau a materion eraill. Mae'n ofynnol iddynt hefyd wneud trefniadau ar gyfer ymgysylltu ag unigolion a phobl eraill fel y gall y darparwr gwasanaeth roi ystyriaeth i'w safbwyntiau ar ansawdd y gofal a chymorth a ddarperir.
- 3.35 Mae **Rhan 14** yn nodi'r gofynion ar yr unigolyn cyfrifol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion eraill, yn cynnwys hysbysu am ddigwyddiadau a chwynion a chadw cofnodion. Hefyd, rhaid i'r unigolyn cyfrifol wneud trefniadau i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth yn parhau i fod yn gyfredol.
- 3.36 Mae **Rhan 15** yn nodi'r gofynion ar yr unigolyn cyfrifol mewn perthynas â monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, yn cynnwys llunio adroddiad i'r darparwr gwasanaeth. Bydd yr adroddiad hwn yn rhan o adroddiad blynyddol y darparwr o dan adran 10 Deddf 2016.
- 3.37 Mae **Rhan 16** yn nodi gofynion eraill ar yr unigolyn cyfrifol, yn cynnwys gofynion mewn perthynas â chymorth i staff sy'n mynegi pryderon, dyletswydd gonestrwydd, a rhoi hysbysiadau penodol i reoleiddiwr y gwasanaeth, sy'n gynwysedig yn atodlen 4.

Rhan 17 - Troseddau

- 3.38 Mae'r rheoliadau yn y rhan hon yn cael eu llunio o dan bwerau adrannau 45 a 46 Deddf 2016. Maent yn darparu bod methiant ar ran darparwr y gwasanaeth a'r

unigolyn cyfrifol yn ôl eu trefn, i gydymffurfio â'r gofynion penodol yn y Rheoliadau drafft yn drosedd. Mae yna gymhwyster ychwanegol sy'n gymwys mewn achos o fethu â chydymffurfio â gofynion penodol. Yn yr achosion hynny, mae'r rheoliad yn darparu bod hynny yn drosedd dim ond os bydd y methiant i gydymffurfio yn arwain at unigolyn yn dod i gysylltiad â niwed y gellid ei osgoi neu'n wynebu risg sylweddol o ddioddef niwed o'r fath neu'n colli arian neu eiddo o ganlyniad i ladrad, camddefnyddio neu gamberchnogi.

- 3.39 Er na fyddai methu â chydymffurfio â gofyniad penodol yn y Rheoliadau drafft yn drosedd efallai, mae'n werth nodi y gallai methiant ar ran darparwr gwasanaeth i gydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion a gynhwysir yn Rhannau 2 i 11 y Rheoliadau fod yn sail ar gyfer canslo cofrestriad y darparwr gwasanaeth o dan adran 15 Deddf 2016. Gallai methiant ar ran unigolyn cyfrifol i gydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion yn Rhan 12 i 16 y Rheoliadau fod yn sail i ganslo dynodiad yr unigolyn cyfrifol o dan adran 22.

Hysbysiadau cosb

- 3.40 Er bod y Rheoliadau drafft yn nodi pa achosion o dorri gofynion gan ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol fydd i'w trin fel troseddau, nid ydynt yn gwneud darpariaethau ar gyfer cymhwyso hysbysiadau cosb. Yn ystod cyfnod 2, bu i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017⁸ sefydlu system hysbysiadau cosb, olygai y gallai Arolygiaeth Gofal Cymru roi cosb i ddarparwyr ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â gwasanaethau rheoleiddiedig yn hytrach na dwyn achos mewn perthynas â throseddau penodol.
- 3.41 Bwriad ein polisi yw ymestyn hynny i wasanaethau cyfnod 3, a galluogi i'r un system hysbysiadau cosb fod yn gymwys i droseddau cyfatebol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol ac unigolion cyfrifol. Mae hynny yn cael ei ddangos yn glir yn y tabl yn Atodiad A (dogfen ar wahân), a gofynnir am eich safbwyntiau ar y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn adran 6 y ddogfen hon.

Darparwyr gwasanaethau sydd wedi eu diddymu etc. neu sydd wedi marw

- 3.42 **Mae Rhan 18** yn gosod gofynion ar berson penodedig mewn perthynas â darparwyr gwasanaeth sydd wedi eu diddymu (o dan adran 30 Deddf 2016); mae hefyd yn nodi gofynion penodol sy'n gymwys pan fo darparwr gwasanaeth sy'n unigolyn wedi marw. O dan yr amgylchiadau yma mae'r Rheoliadau drafft yn gosod dyletswyddau hysbysu penodol ar gynrychiolydd personol yr unigolyn.

Dynodiad unigolyn cyfrifol gan Weinidogion Cymru

- 3.43 Mae **Rhan 19** yn pennu'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru (yn lle'r darparwr gwasanaeth) ddynodi unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol, er nad yw gofynion cymhwysedd adran 21(2) wedi eu bodloni mewn perthynas â'r unigolyn. Mae'r rheoliad hwn wedi ei wneud o dan adran 21(5) o Ddeddf 2016.
- 3.44 Yr ymagwedd o dan Deddf 2016 yw mai cyfrifoldeb y darparwr gwasanaeth yw dynodi unigolyn cyfrifol. Os oes yna berson cymwys - sydd yn addas a phriodol hefyd - sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn Neddf 2016, disgwylir i'r darparwr gwasanaeth ddynodi'r person hwnnw fel yr unigolyn cyfrifol oni bai fod yna

⁸ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1292/pdfs/wsi_20171292_mi.pdf

amgylchiadau eithriadol. Mae'r amgylchiadau hynny wedi eu nodi yn y Rheoliadau drafft.

4 Effeithiau posibl

- 4.1 Er mwyn cynorthwyo'r ystyriaeth a roddir i'r Rheoliadau drafft, rydym wedi cynnwys rhai o gostau a buddion dangosol y cynigion gaiff eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn. Pan ydym wedi gallu gwneud hynny, rydym hefyd wedi cynnwys rhai manylion am opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Rheoliadau drafft.

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau lleoli oedolion ac unigolion cyfrifol o dan Ddeddf 2016

Opsiynau

- **Opsiwn un** - Efelychu darpariaethau Rheoliadau Gwasanaethau rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017⁹
- 4.2 O dan Ddeddf 2016, mae'r canlynol yn cael eu rhestru yn adran 2 fel gwasanaethau rheoleiddiedig:
- Gwasanaeth cartref gofal;
 - Gwasanaeth llety diogel;
 - Gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd;
 - Gwasanaeth mabwysiadu;
 - Gwasanaeth maethu;
 - Gwasanaeth lleoli oedolion;
 - Gwasanaeth eiriolaeth;
 - Gwasanaeth cymorth cartref.
- 4.3 O dan yr opsiwn yma byddai darpariaethau Rheoliadau 2017 yn gymwys i wasanaethau lleoli oedolion yn yr un modd ag y maent i wasanaethau eraill a reoleiddir heb fod angen eu haddasu.
- **Opsiwn dau** - Addasu darpariaethau Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017
- 4.4 Mae gwasanaethau lleoli oedolion yn amlwg o natur wahanol i wasanaethau sy'n darparu llety neu gymorth cartref, felly bu'n rhaid ystyried pa ddarpariaethau ddylai fod yn gymwys ac na ddylai fod yn gymwys, a pha addasiadau allai fod yn briodol.
- 4.5 Gyda chymorth Grŵp Technegol Lleoli Oedolion, cynhaliwyd ymarferiad er mwyn clustnodi addasiadau a newidiadau priodol. Mae darpariaethau perthnasol Rheoliadau 2017 sydd wedi'u haddasu neu eu datgymhwyso yn cael eu rhestru isod ynghyd â rhai sylwadau. Mae nifer o'r addasiadau wedi'u gwneud er mwyn adlewyrchu'r ffaith nad yw darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion yn darparu gofal a chymorth yn uniongyrchol, yn wahanol i'r gwasanaethau hynny sy'n rhan o gylch gwaith Rheoliadau 2017.

Gofynion a addaswyd

Gofynion i ddarparu'r gwasanaeth lleoli oedolion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau

⁹ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/pdfs/wsi_20171264_mi.pdf

- 4.6 Gwnaethpwyd rhai mân newidiadau i restr y polisïau a gweithdrefnau y mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth lleoli oedolion eu sefydlu er mwyn sicrhau bod y rhain yn fwy perthnasol i natur y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

Rhan 4 - Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd wrth gychwyn darparu gofal a chymorth

- 4.7 Mae addasiadau sylweddol wedi cael eu gwneud i'r Rhan hon er mwyn adlewyrchu natur gwasanaethau lleoli oedolion. Mae'n cyflwyno gofyniad i lunio cytundeb gofalwr a chytundeb lleoli unigolyn, yn ogystal â'r cynllun personol sy'n rhan o Reoliadau 2017.

Staffio – gofynion trosfwaol

- 4.8 Mae'r rheoliad hwn wedi cael ei addasu er mwyn adlewyrchu natur benodol gwasanaethau lleoli oedolion. Mae'r darpariaethau mewn perthynas â gwasanaethau cartrefi gofal wedi cael eu dileu.

Rhan 9 Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â gofalwyr lleoliadau oedolion

- 4.9 Mae'r Rhan hon wedi ei hychwanegu at y Rheoliadau drafft er mwyn cydnabod y rhwymedigaethau ddylai darparwyr lleoliadau oedolion eu cael tuag at ofalwyr lleoliadau oedolion, ac er mwyn sicrhau parhad trefniadau sy'n bodoli. Mae hynny yn cynnwys recriwtio a hyfforddi gofalwyr lleoliadau oedolion, perthnasoedd effeithiol, cymorth a gwybodaeth i ofalwyr lleoliadau oedolion, ac addasrwydd gofalwyr lleoliadau oedolion.

Rhan 10 - gofynion ar ddarparwyr gwasanaeth mewn perthynas â safleoedd, cyfleusterau ac offer

- 4.10 Mae'r Rhan hon wedi ei haddasu er mwyn adlewyrchu natur wahanol iawn gwasanaethau lleoli oedolion o'u cymharu â gwasanaethau llety megis gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth llety diogel.

Gofynion sydd wedi eu datgymhwyso

Eithriadau

- 4.11 Ni fu'n rhaid gwneud unrhyw eithriadau i'r Rheoliadau drafft yma.

Asesu Darparwyr

- 4.12 Mae'r gofyniad i gynnal asesiad darparwyr o fewn 7 diwrnod o ddarparu gofal a chymorth wedi cael ei ddileu oherwydd ni theimlwyd bod hynny yn briodol nac yn angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau lleoli oedolion.

Dilyniant Gofal

- 4.13 Teimlwyd bod y gofyniad i ddarparwr gwasanaeth sefydlu trefniadau er mwyn sicrhau bod unigolion yn derbyn cymaint o ddilyniant gofal ag sy'n rhesymol er mwyn bodloni eu hanghenion yn fwy perthnasol i gartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref yn hytrach na lleoliadau oedolion.

Costau

- **Opsiwn un** - Efelychu darpariaethau Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017

4.14 Lluniwyd Memorandwm Esboniadol manwl¹⁰ ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau 2017. Mae dadansoddiad o'r costau dangosol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hynny o dan Reoliadau 2003 i'w cael yn y ddogfen hon. Gall costau dangosol cyffelyb fod yn gymwys i'r opsiwn hon.

- **Opsiwn dau** - Addasu darpariaethau Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017

4.15 Byddai nifer o'r costau sy'n gymwys i Opsiwn un yn gymwys hefyd i Opsiwn dau. Er bod addasiadau wedi cael eu gwneud, mae'r darpariaethau yn y Rheoliadau drafft yma i raddau helaeth yn adlewyrchu rhai a geir yn Rheoliadau 2017. Maent hefyd i raddau helaeth yn cadw'r trefniadau sy'n bodoli o dan Reoliadau 2004.

4.16 Efallai bod yna rai costau pontio yn gysylltiedig â'r Rheoliadau drafft yma o ran diweddarau polisïau a gweithdrefnau (er bod y rhain yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd), cynefino a hyfforddi staff.

Buddion

- **Opsiwn un** - Efelychu darpariaethau Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017

4.17 Er bod yna rai buddion i'r opsiwn yma o ran sicrhau cysondeb ar draws yr holl wasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2016, nid yw darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion yn darparu gofal a chymorth yn uniongyrchol i oedolion. Mae hynny yn hytrach yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan ofalwyr lleoliadau oedolion.

4.18 Felly, y prif risg sy'n gysylltiedig ag opsiwn un oedd y byddai'n ceisio ystumio gwasanaethau i ffitio model o wasanaeth a reoleiddir nad oedd yn adlewyrchu gwir natur lleoli oedolion - yn benodol rôl gofalwyr lleoliadau oedolion o ran darparu gofal a chymorth i unigolion.

- **Opsiwn dau** - Addasu darpariaethau Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017

4.19 Prif fuddion opsiwn dau yw y gellir sicrhau'r cysondeb gorau posibl ar draws yr holl wasanaethau a reoleiddir yn cynnwys gwasanaethau lleoli oedolion, tra'n caniatáu hyblygrwydd i osod gofynion sy'n gweddu i natur unigryw lleoliadau oedolion.

4.20 Y risg oedd yn gysylltiedig ag opsiwn dau yw y byddai gwro gormod oddi wrth ofynion Rheoliadau 2017 yn ei gwneud yn anodd i Arolygiaeth Gofal Cymru sicrhau cysondeb ansawdd archwilio ar draws yr holl wasanaethau a reoleiddir. Fodd bynnag, o ystyried natur unigryw darpariaeth lleoli oedolion, rydym yn credu bod y buddion sy'n deillio o wneud yr addasiadau a amlinellwyd yn gorbwyso'r risgiau sy'n gysylltiedig ag anghysondeb ar draws gwasanaethau rheoleiddiedig gan Ddeddf 2016.

¹⁰ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld11277-em/sub-ld11277-em-e.pdf>

4.21 Felly, opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrid, am y rhesymau a nodir uchod.

5 Canllawiau Statudol

Canllawiau Statudol

- 5.1 Mae'r canllawiau statudol drafft, a ddatblygwyd o dan adran 29 Deddf 2016, yn nodi sut all darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion ac unigolion cyfrifol gydymffurfio â'r gofynion a osodwyd gan Rannau 2 i 16 y Rheoliadau drafft. Mae'n darparu mwy o ganllawiau - y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol eu hystyried - ynghylch sut mae bodloni elfennau unigol pob un o'r rheoliadau pan fo angen mwy o eglurhad a diffiniad. Ni ddylid ystyried bod y canllawiau yn gyflawn, oherwydd gallai fod yna ffyrdd eraill y gall darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ddangos eu bod yn bodloni'r gofynion a nodir yn y rheoliadau. Ni fwriedir iddynt fod ar wahân, felly mae'n rhaid eu darllen ar y cyd â Rhannau 2 i 16 y Rheoliadau drafft.
- 5.3 Fel yn achos y Rheoliadau drafft, mae'r canllawiau statudol drafft yn gyffredinol yn dilyn y fformat a chynnwys y canllawiau statudol¹¹ a gyhoeddwyd yn Chwefror 2018, pan fo'n briodol, mewn perthynas â chartrefi gofal, llety diogel ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref (a ddatblygwyd yn ystod cyfnod gweithredu 2).

¹¹ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/180201statutory-guidancecy.pdf>

6 Rheoleiddio Gwasanaethau Lleoli i rai 16 i 17 oed yn y dyfodol.

Cefndir

- 6.1 Ar hyn o bryd gellir ond darparu lleoliadau oedolion i rywun sydd dros 18 oed. Bu i'r Grŵp Technegol gynghori y gallai lleoliadau oedolion, yn achos rhai pobl ifanc 16 neu 17 oed, ddarparu cyfle unigryw i'w cefnogi wrth iddynt bontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, i'w cynorthwyo i ddatblygu annibyniaeth, sgiliau a hyder neu i fyw mewn cartrefi arferol gyda theuluoedd ble gallent ffurfio perthnasoedd ystyrlon. Nid yw hynny yn bosibl ar hyn o bryd o dan y fframwaith cyfreithiol presennol, ac mae hefyd yn golygu mai dim ond ychydig, os o gwbl, o'r camau hanfodol sydd angen eu cymryd i wneud trefniadau lleoli oedolion y gellir eu cymryd nes bod y person yn 18 oed.

Ein cynigion

- 6.2 Felly byddem yn croesawu safbwyntiau ar yr egwyddor o ymestyn cynlluniau lleoli oedolion i gynnwys rhai 16 ac 17 oed. Os bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol i'r ymagwedd hon, byddem yn ceisio rhagnodi gwasanaethau lleoli i rai 16 ac 17 oed fel gwasanaeth wedi'i reoleiddio o dan adran 2 Deddf 2016. Byddem hefyd yn datblygu Rheoliadau drafft fyddai'n nodi'r gofynion penodol fyddai'n cael eu gosod ar ddarparwyr ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â'r gwasanaethau yma. Yn unol â'r ymagwedd a gymerir yn y Rheoliadau drafft yma i osod set o ofynion generig ar ddarparwyr yr holl 'wasanaethau rheoleiddiedig' o dan Ddeddf 2016, bwriad y polisi yw y byddai'r Rheoliadau drafft ynghylch lleoliadau ar gyfer rhai 16 i 17 oed i raddau helaeth yn efelychu'r rhai ar gyfer lleoliadau oedolion, wedi eu haddasu fel bo'r angen.

7 Cwestiynau'r ymgynghoriad

Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad

Eich enw:	
Sefydliad (os yn gymwys):	
E-bost / rhif ffôn:	
Eich cyfeiriad:	

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych bod eich ymateb yn aros yn ddienw, ticiwch y bocs os gwelwch yn dda:

☐

RHAN 2: Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno ☐	Tueddu i gytuno ☐	Tueddu i anghytuno ☐	Anghytuno ☐
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

--

RHAN 3: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd cyn cytuno i ddarparu gofal a chymorth

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno ☐	Tueddu i gytuno ☐	Tueddu i anghytuno ☐	Anghytuno ☐
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHAN 4: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd wrth gychwyn darparu gofal a chymorth

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno ☐	Tueddu i gytuno ☐	Tueddu i anghytuno ☐	Anghytuno ☐
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHAN 5: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y wybodaeth sydd i'w darparu i unigolion wrth gychwyn darparu gofal a chymorth

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno ☐	Tueddu i gytuno ☐	Tueddu i anghytuno ☐	Anghytuno ☐
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHAN 6: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno ☐	Tueddu i gytuno ☐	Tueddu i anghytuno ☐	Anghytuno ☐
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHAN 7: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau – diogelu

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno ☐	Tueddu i gytuno ☐	Tueddu i anghytuno ☐	Anghytuno ☐
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHAN 8: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran staffio

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno ☐	Tueddu i gytuno ☐	Tueddu i anghytuno ☐	Anghytuno ☐
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHAN 9: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas a gofalwyr lleoliadau oedolion

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion a gofalwyr lleoliadau oedolion? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno ☐	Tueddu i gytuno ☐	Tueddu i anghytuno ☐	Anghytuno ☐

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

--

RHAN 10: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â safleoedd, cyfleusterau ac offer

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno ☐	Tueddu i gytuno ☐	Tueddu i anghytuno ☐	Anghytuno ☐

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHAN 11: Gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno ☐	Tueddu i gytuno ☐	Tueddu i anghytuno ☐	Anghytuno ☐
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHANNAU 12 -16 : Gofynion ar unigolion cyfrifol

A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

Cytuno

☐

Tueddu i gytuno

☐Tueddu i
anghytuno☐

Anghytuno

☐

A yw'r canllawiau statudol drafft yn cefnogi darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion yn ddigonol o ran y ffordd y gallent gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan hon? Os ydych yn credu bod unrhyw beth wedi ei hepgor neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y bocs isod.

RHAN 17: Troseddau

A yw'r ymagwedd a gymerir mewn perthynas â throseddau yn y Rheoliadau drafft yn ddigonol a chymesur? Os nad, eglurwch hynny isod.

Cytuno

☐

Tueddu i gytuno

☐Tueddu i
anghytuno☐

Anghytuno

☐

Hysbysiadau Cosb (Ni ddarperir ar gyfer y rhain yn y Rheoliadau drafft)			
A yw'r ymagwedd mewn perthynas â hysbysiadau cosb, fel y dangosir hynny yn Atodiad A, yn ddigonol a chymesur? A yw'r lefelau cosb yn briodol? Os nad, eglurwch hynny isod.			
Cytuno ☐	Tueddu i gytuno ☐	Tueddu i anghytuno ☐	Anghytuno ☐
RHAN 18: Darparwyr gwasanaethau sydd wedi eu diddymu etc. neu sydd wedi marw			
A yw'r gofynion a osodwyd ar unigolion a benodwyd a chynrychiolwyr personol yn rhesymol? Os nad, eglurwch hynny isod.			
Cytuno ☐	Tueddu i gytuno ☐	Tueddu i anghytuno ☐	Anghytuno ☐
RHAN 19: Dynodi unigolyn cyfrifol gan Weinidogion Cymru			
A yw'r amgylchiadau pan allai unigolion cyfrifol gael eu dynodi gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na'r darparwr gwasanaeth, yn ddigonol a chymesur? Os nad, eglurwch hynny isod.			
Cytuno ☐	Tueddu i gytuno ☐	Tueddu i anghytuno ☐	Anghytuno ☐

Rheoleiddio Gwasanaethau Lleoli i rai 16 i 17 oed yn y dyfodol.
Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried ymestyn cynlluniau lleoli oedolion er mwyn cynnwys rhai 16 ac 17 oed. A ydych yn credu y byddai lleoliadau oedolion yn fuddiol i rai 16 ac 17 oed? Os ydych, a oes yna unrhyw faterion penodol fyddai angen eu hystyried wrth ddatblygu set o Reoliadau drafft?
Eglurwch os gwelwch yn dda.
Cwestiynau eraill:
Rydym wedi nodi nifer o gostau/buddion/risgiau mewn perthynas â'r Rheoliadau drafft yma. A yw'r costau/buddion/risgiau y cyfeirir atynt yn y ddogfen ymgynghori hon yn adlewyrchiad rhesymol o lefel effaith y Rheoliadau drafft? A oes yna unrhyw gostau/buddion/ risgiau ychwanegol yr ydych yn teimlo na ystyriwyd neu na nodwyd?
Eglurwch os gwelwch yn dda.
Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig neu beidio. Nodweddion gwarchodedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. A ydych yn credu bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio'n gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os ydych, pa rai a pham/pam ddim?
Eglurwch os gwelwch yn dda.

A ydych yn credu bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio'n negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os ydych, pa rai a pham/pam ddim?

Eglurwch os gwelwch yn dda.

Hoffwn wybod beth yw eich safbwyntiau ar effeithiau'r cynigion hyn ar yr iaith Gymraeg, yn benodol mewn perthynas â

- i) chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a
- ii) pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau ydych chi'n meddwl allai fodoli? Sut ellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Eglurwch os gwelwch yn dda.

Hefyd eglurwch sut ydych yn credu y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:

- i) creu effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac o ran peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a
- ii) sicrhau na effeithir yn niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac o ran peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion eraill i'w nodi nad ydym wedi delio â hwy yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i wneud hynny.